# A allech chi helpu penderfynu sut mae arian y Loteri Genedlaethol yn cefnogi cymunedau yng Nghymru?

Pecyn Briffio Ymgeiswyr Pwyllgor Cymru

# Rhagymadrodd

Diolch i chi am eich diddordeb mewn ymuno â Phwyllgor Cymru Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol.

Rydym ni nawr yn recriwtio ar gyfer un swydd wag bresennol ym Mhwyllgor Cymru. Mae Pwyllgor Cymru yn gosod cyfeiriad ein gwaith ac yn gwneud penderfyniadau am ein grantiau mawr yng Nghymru. Mae chwe aelod gan gynnwys Cadeirydd Cymru.

Mae Pwyllgor Gwlad Cymru yn cefnogi Cadeirydd Cymru wrth gynrychioli Cymru ym Mwrdd y DU ac yn cefnogi'r Uwch Dîm Rheoli wrth gyflawni swyddogaethau Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol yng Nghymru. Mae'n arfer y rolau a'r cyfrifoldebau hyn gan roi sylw dyledus i egwyddorion Nolan.

Prif rôl aelodau'r Pwyllgor yw defnyddio eu gwybodaeth am y trydydd sector a meddwl strategol i helpu rhoi cyfarwyddyd i Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol yng Nghymru, gan roi mewnbwn di-duedd i'n pwyllgorau grantiau a bod yn llysgennad i'r Gronfa.

Mae hwn yn gyfnod cyffrous i ymuno â Phwyllgor Cymru y Gronfa. Daw'r cyfle hwn ar adeg o adnewyddu sylweddol yn y Gronfa yn dilyn lansiad ein strategaeth newydd, *Cymuned yw'r man cychwyn*, gan osod cyfeiriad newydd tan 2030. Bydd Aelodau Pwyllgor Cymru sy'n ymuno ar yr adeg gyffrous hon yn gyfrifol am oruchwylio cyflawni o fewn Cymru, pan ddisgwylir twf mewn elw i achosion da, ochr yn ochr â gwaith parhaus trydydd partïon ac asedau segur y Gronfa.

Mae hwn yn gyfle sylweddol i fod yn rhan o sefydliad sy'n trawsnewid bywydau pobl. Os ydych chi'n credu bod gennych chi'r cefndir a'r rhinweddau personol sydd eu hangen, byddem yn falch iawn o glywed gennych chi.

# Ynglŷn â Chronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol

## Cefndir

Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol yw'r ffynhonnell unigol fwyaf o arian cymunedol yn y DU. Rydym ni’n cefnogi prosiectau anhygoel sy'n helpu cryfhau cymdeithas a gwella bywydau. Mae chwaraewyr y Loteri Genedlaethol yn codi £30 miliwn anhygoel yr wythnos ar gyfer achosion da. Mae'r arian hwn yn ariannu prosiectau a gweithgareddau sy'n trawsnewid cymunedau, diogelu ein treftadaeth, ac yn cyfoethogi bywydau. Rydym ni’n falch o fod yn un o 12 dosbarthwr sy'n gyfrifol am ddyfarnu'r arian hwn ledled y DU. Rydym ni hefyd yn dosbarthu cronfeydd y Loteri Genedlaethol, gan weithio'n agos gyda Llywodraeth y DU ar grantiau ar gyfer materion pwysig megis gweithredu cymdeithasol ieuenctid ac iechyd a lles.

### Cymuned yw’r man cychwyn - ein taith i 2030

Mae cysylltiadau cymdeithasol a gweithgareddau cymunedol wrth wraidd creu bywydau iachach, hapusach a chymdeithas lewyrchus. Dyna pam mae Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol yn cefnogi prosiectau anhygoel dan arweiniad y gymuned. A pham rydyn ni eisiau gwneud mwy o wahaniaeth yn y blynyddoedd i ddod, trwy wrando ac ymateb i gymunedau a thrwy ganolbwyntio ar gefnogi newid mwy mentrus. Yr uchelgais drwy'r strategaeth hon yw creu cymunedau gwydn sy'n fwy cynhwysol a chynaliadwy yn amgylcheddol, gan ariannu gweithgareddau a sefydliadau sy'n cryfhau cymdeithas ac yn gwella bywydau ledled y DU. Rydym ni’n canolbwyntio ein hymdrechion lle mae’r angen mwyaf. Rydyn ni eisiau gwneud mwy o wahaniaeth yn y blynyddoedd i ddod, trwy wrando ac ymateb i gymunedau, a thrwy ganolbwyntio mwy ar gefnogi’r effaith fwyaf. Byddwn ni’n cyflawni'r strategaeth hon hyd at 2030 ar adeg o adnewyddu a thwf disgwyliedig mewn elw i 'achosion da' gan Y Loteri Genedlaethol, ochr yn ochr â gwaith trydydd partïon ac asedau segur y Gronfa.

### Y sefydliad

Mae Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol wedi’i sefydlu fel corff cyhoeddus anadrannol gan Ddeddf Seneddol. Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am gyfeiriad strategol cyffredinol y Gronfa ac am lywodraethu’r Gronfa. Mae'n dirprwyo rhedeg y sefydliad o ddydd i ddydd i'r Prif Weithredwr a'i Uwch dîm Rheoli. Mae penderfyniadau ariannu’n cael eu dirprwyo i bum pwyllgor ariannu (y DU, Lloegr, Gogledd Iwerddon, yr Alban a Chymru) ac i Swyddogion Gweithredol. Mae cyfrifoldeb polisi dros Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol yn Lloegr, gan gynnwys gosod cyfarwyddiadau polisi, yn gorwedd ar yr Adran Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Mae Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol yn cael ei llywodraethu gan Fwrdd. Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am osod strategaeth hirdymor a pholisïau allweddol y Gronfa, a sicrhau ei bod yn cael ei rhedeg mewn ffordd effeithiol ac effeithlon.

## Ein pwrpas

Rydym ni’n cefnogi gweithgareddau sy'n creu cymunedau gwydn sy'n fwy cynhwysol ac yn amgylcheddol gynaliadwy - gweithgareddau a fydd yn cryfhau cymdeithas ac yn gwella bywydau ledled y DU.

### Ein nodau cymunedol a'r hyn y byddwn ni’n ei gyflawni erbyn 2030

**Byddwn yn cefnogi cymunedau i gysylltu drwy wneud y canlynol:**

- creu mannau hygyrch, croesawgar, corfforol a rhithiol, i bobl gwrdd
- cychwyn gweithgareddau ymgysylltu a chynhwysol sy'n cefnogi cysylltiadau o fewn grwpiau o bobl a rhyngddynt
- galluogi pobl o bob cefndir i lunio dyfodol eu cymunedau gan feithrin ymdeimlad cynyddol o berthyn.

**Byddwn yn cefnogi cymunedau amgylcheddol gynaliadwy sy'n:**

- lleihau allyriadau carbon ac effaith amgylcheddol negyddol
- creu effeithiau amgylcheddol cadarnhaol
- sefydlu cydraddoldeb mynediad i'r amgylchedd naturiol
- gwella ansawdd mannau naturiol.

**Byddwn yn galluogi plant a phobl ifanc i ffynnu drwy wneud y canlynol:**

- creu cyfleoedd i blant a phobl ifanc o bob cefndir fwynhau profiadau cymunedol
- helpu plant a phobl ifanc i lunio'r penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw a'u cymunedau
- darparu mynediad i blant a phobl ifanc i fannau diogel i chwarae, cymryd rhan, cymdeithasu a chael cymorth.

**Byddwn yn galluogi pobl i fyw bywydau iachach drwy wneud y canlynol:**

- helpu lleihau anghydraddoldebau iechyd
- cynyddu cyfleoedd i gyfranogiad cymunedol i lunio gwasanaethau iechyd gwell
- cymryd ymagwedd ataliol tuag at iechyd.

## Ein dull

- Dull sy'n seiliedig ar degwch i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb
- Cefnogi cymunedau i adeiladu o'u cryfderau
- Cefnogi'r hyn sydd bwysicaf i wahanol gymunedau
- Model gwneud grantiau hyblyg gyda grantiau bach untro yn dechrau o £300 hyd at £20,000, i grantiau mwy hirdymor a buddsoddiadau strategol sylweddol mewn partneriaeth.

## Ein gwerthoedd

Rydym ni:

- yn gynhwysol
- yn uchelgeisiol
- yn canolbwyntio ar effaith

- yn addasadwy
- yn dosturiol

## Pwyllgor Cymru

Mae Pwyllgor Cymru yn gosod cyfeiriad ein gwaith yng Nghymru yn unol â chyfeiriad strategaeth y Gronfa ac yn gwneud penderfyniadau ar ein grantiau mawr yng Nghymru. Dyma adeg amserol i ymuno â Phwyllgor Cymru, gan ein bod yn mynd i mewn i gyfnod cyffrous o newid ac yn cynnal Adolygiad Portffolio Cymru.

Byddwn yn defnyddio dull Un Gronfa i greu grantiau, gan ddod â rhannau niferus o'n sefydliad a'n harbenigedd cyfoethog ynghyd i ddarparu grantiau trawsnewidiol ledled Cymru yn ogystal â gweddill y DU. Bydd Pwyllgor Cymru yn gyfrifol am oruchwyliaeth strategol sut y byddwn ni'n dosbarthu £208.7 miliwn i gymunedau Cymru erbyn 2029.

Byddwn yn rhoi ffocws mwy llym ar fynd i'r afael ag anghydraddoldebau sy'n golygu y byddwn ni'n canolbwyntio mwy ar y llefydd, y bobl a'r cymunedau sy'n profi tlodi, anfantais a gwahaniaethu yng Nghymru. Byddwn hefyd yn cefnogi gweithredu amgylcheddol ar draws ein holl grantiau, gan fuddsoddi mewn cynaliadwyedd amgylcheddol a chefnogi prosiectau i ystyried yr amgylchedd hyd yn oed pan nad dyna yw eu prif ffocws.

Ar hyn o bryd rydym ni'n adnewyddu ein cynnig ariannu yng Nghymru er mwyn sicrhau ein bod yn adeiladu ar yr hyn mae'r cyhoedd a rhanddeiliaid wedi'i ddweud wrthym ni yw eu prif flaenoriaethau ar gyfer Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol yng Nghymru. Rydym ni eisoes wedi gwneud newidiadau i faint dyfarnu grantiau drwy Arian i Bawb y Loteri Genedlaethol i uchafswm o £20,000, ac ar hyn o bryd rydym ni'n adnewyddu ein rhaglen ymatebol fwy Pawb a'i Le ac yn nyddiau cynnar datblygu ffrwd ariannu newydd i ganolbwyntio ar blant. Mae mwy o wybodaeth am ein grantiau yng Nghymru yma: tnlcommunityfund.org.uk/funding.

I ddysgu rhagor, ewch i: https://www.tnlcommunityfund.org.uk/

# Proffil rôl

## Aelodau Pwyllgor Cymru

**Gosod strategaeth a pholisïau cyffredinol**

- Cytuno ar strategaeth hirdymor a'r ymagweddau allweddol tuag at ein grantiau yng Nghymru, yn unol â strategaeth gyffredinol y Gronfa a'i phrosesau llywodraethu.

**Atebolrwydd**

- Sicrhau'r safonau uchaf o ran llywodraethu a chyflawni cyfrifoldebau.
- Arsylwi ar Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus a Chod Ymddygiad Swyddfa'r Cabinet ar gyfer cyrff cyhoeddus anadrannol (NDPBs) a chydymffurfio â'r holl gyfrifoldebau statudol.

**Herio a chefnogi'r weithrediaeth**

- Cefnogi Cyfarwyddwr Cymru, bod yn ffynhonnell o arweiniad a chyngor doeth, a herio a chefnogi'r weithrediaeth.

**Effeithiolrwydd**

- Cytuno ar gyllideb grantiau blynyddol Cyfarwyddiaeth Cymru, monitro cynnydd a chymeradwyo camau cywiro.
- Cytuno ar ddosbarthiad arian i Gymru.
- Cytuno ar newidiadau i raglenni ariannu a monitro cynnydd ac effaith gwneud grantiau.
- Sicrhau bod risg yn cael ei reoli a'i fonitro.

**Llysgennad/enw da**

- Bod yn llysgenhadon i'r sefydliad, o fewn canllawiau y cytunwyd arnynt gan Gyfarwyddiaeth Lloegr.
- Gwella a diogelu enw da'r Gronfa.

# Manyleb Person

## Sgiliau a Phrofiad Angenrheidiol

Rydym ni am i'n Pwyllgorau feddu ar sylfaen eang o wybodaeth, sgiliau a phrofiad ac i adlewyrchu amrywiaeth cymdeithas fodern a'r cymunedau yr ydym ni'n eu gwasanaethu, a thrwy wneud hynny cofleidio ein cymdeithas yn ei chyfanrwydd.

Gan fod y Gronfa yn gweithredu strategaeth newydd hyd at 2030, rydym ni'n chwilio am Aelodau newydd sy'n gallu cynnig rhagolwg ac egni newydd.

Rydym ni'n chwilio am unigolion a fydd yn dod â gwybodaeth, sgiliau a phrofiad eithriadol o'r sylfaen ehangaf. Yn benodol, rydym ni'n croesawu ymgeiswyr sydd â gwybodaeth ranbarthol a phrofiad elusennol a chymunedol prif ffrwd, profiad ehangach yn y sector cyhoeddus neu breifat, gwybodaeth a phrofiad sy'n berthnasol i'n pedwar nod a'n meysydd ffocws a phrofiad uwch mewn datblygu partneriaeth a chydweithio.

## Y person — meini prawf hanfodol

- **Cyd-destun Cymreig:** Dealltwriaeth o dirwedd wleidyddol, cymdeithasol a diwylliannol Cymru a rôl y sector gwirfoddol a chymunedol ynddi, a diddordeb yn hyn. Cefndir cymorth busnes yn y trydydd sector yng Nghymru.
- **Arweinyddiaeth strategol**: gallu cyfrannu at wneud penderfyniadau strategol ar flaenoriaethau a grantiau yng Nghymru yn unol â strategaeth a nodau Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol; dangos profiad arweinyddiaeth sylweddol, darparu cyfeiriad clir a chymhellol ac annog gwneud penderfyniadau a chyfrifoldeb personol.
- Y gallu i ddeall materion cymhleth a gwneud penderfyniadau gan ystyried gofynion cystadleuol.
- **Cynrychioli'r Gronfa**: Profiad o gynrychioli sefydliad a pharodrwydd i gynrychioli'r Gronfa mewn digwyddiadau cyhoeddus a meithrin perthynas â rhanddeiliaid eraill.
- **Tegwch, Amrywiaeth a Chynhwysiant:** Dealltwriaeth ac ymrwymiad clir i gyflawni tegwch, amrywiaeth a chynhwysiant a'i hyrwyddo yng nghyd-destun corff cyhoeddus ac ariannwr.
- **Llywodraethu:** Ymwybyddiaeth o'r fframwaith llywodraethu sy'n berthnasol i Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol; gallu cyfrannu at fforymau gwneud penderfyniadau a'u harwain. Dealltwriaeth ac ymrwymiad i'r egwyddorion sy'n ofynnol i ddal swydd gyhoeddus o'r math hwn (Egwyddorion Nolan).

## Y person — meini prawf dymunol

- Byddai gallu i gyfathrebu yn Gymraeg yn ddymunol.

# Telerau penodi

## Ymrwymiad Amser a chyfarfodydd
Disgwylir i'r ymrwymiad amser fod ar gyfartaledd o 2 ddiwrnod y mis. Mae hyn yn cynnwys:

- Mae Pwyllgor Cymru yn cyfarfod bob tri mis ynghyd â dau ddiwrnod cynllunio blynyddol. Bydd y mwyafrif o gyfarfodydd yn cynnwys yr opsiwn i fynychu'n rhithiol, ond byddwn yn gofyn i aelodau fynychu cyfarfodydd wyneb yn wyneb ar sail ad-hoc.
- Bydd cyfarfodydd eraill y Pwyllgor neu'r Panel Ariannu a fydd yn cael eu nodi wrth benodi ac mewn trafodaeth gyda Chadeirydd Pwyllgor Cymru.
- Rydym ni'n disgwyl presenoldeb mewn ymweliadau prosiect a chyfarfodydd gyda rhanddeiliaid eraill.

Mae'r swydd am gyfnod cychwynnol o bedair blynedd.

## Cydnabyddiaeth
Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn derbyn taliad sefydlog blynyddol o £5,232 ynghyd â lwfansau teithio a chynhaliaeth yn unol â chyfraddau Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol. Nid yw'r rôl yn bensiynadwy.

## Hyd y penodiad
Mae'r penodiad am gyfnod cychwynnol o hyd at bedair blynedd. Mae gwybodaeth am Aelodau presennol y Pwyllgor ar gael yma:
https://www.tnlcommunityfund.org.uk/about/our-people/wales-committee.

## Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Cynhwysiant
Mae tegwch, amrywiaeth a chynhwysiant yn ein gwaith gwneud grantiau, ac ymhlith ein pobl, i gyd yn hanfodol i'n llwyddiant wrth gefnogi pobl a chymunedau i ffynnu. Rydym ni'n credu y dylai ein pobl gynrychioli'r cymunedau, y sefydliadau a'r unigolion rydym ni'n gweithio gyda nhw. Rydym ni wedi ymrwymo i fod yn lle teg a chynhwysol i weithio ynddo ac yn cydnabod bod pobl yn ein cymdeithas yn dod o gefndiroedd amrywiol. Rydym ni'n gyflogwr Hyderus o ran Anabledd ac rydym ni'n croesawu ceisiadau gan bobl ag anableddau yn gadarnhaol.

## Sut i Ymgeisio

**E-bostiwch ffurflen gais, ffurflen Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, a'ch CV i: wales.committee@tnlcommunityfund.org.uk**

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau ar unrhyw agwedd ar y broses benodi, os ydych chi angen gwybodaeth ychwanegol neu os ydych chi'n dymuno cael trafodaeth anffurfiol, cysylltwch â wales.committee@tnlcommunityfund.org.uk cyn cyflwyno eich cais.

Bydd pob cais yn cael ei asesu yn erbyn manyleb y person ar gyfer y swydd. Bydd ymgeiswyr ar y rhestr fer yn cael eu gwahodd am gyfweliad. Bydd y panel cyfweld yn cael ei gadeirio gan John Rose (Cyfarwyddwr Cymru), Simone Lowthe-Thomas (Cadeirydd Pwyllgor Cymru), ac aelod allanol o'r panel.

**Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau yw canol dydd, dydd Iau 22 Awst 2024.**

**Disgwylir i gyfweliadau gael eu cynnal ym mis Medi.**

Yn dilyn y cyfweliadau, bydd y panel yn cyflwyno ei argymhellion i Gadeirydd Bwrdd Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol. Bydd y Cadeirydd yn gwneud y penodiad gyda chydsyniad Ysgrifennydd y Cabinet dros Ddiwylliant a Chyfiawnder Cymdeithasol Cymru. Bydd Cadeirydd Bwrdd Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol yn ysgrifennu at yr ymgeisydd llwyddiannus i gynnig y swydd.

## Ynglŷn â'r Ffordd Rydym Ni'n Gweithio

**Ein Hymrwymiad i'r Gymraeg**
Mae Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaeth dwyieithog i'r cyhoedd yng Nghymru. Gallwch ddysgu mwy am Safonau'r Gymraeg drwy ymweld â tnlcommunityfund.org.uk/welshlanguage.

**Cyflogwr Hyderus o ran Anabledd ymroddedig**
Mae Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol yn falch o fod yn gyflogwr Hyderus o ran Anabledd ymroddedig. Byddwn yn ymrwymo i gyfweld ag ymgeisydd ag anabledd os yw'n bodloni'r meini prawf lleiaf ar gyfer dethol. Bydd Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol yn gwneud unrhyw addasiad rhesymol i helpu presenoldeb yng nghyfnod cyfweliad y broses ddethol. Er mwyn ein helpu, cwblhewch y ffurflen cyfle cyfartal a fydd yn cael ei hanfon at bob ymgeisydd.

**Egwyddorion Nolan - Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus**
Nododd y Pwyllgor Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus (Pwyllgor Nolan yn wreiddiol) Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus: Anhunanoldeb; Uniondeb; Gwrthrycholdeb; Atebolrwydd; Natur Agored; Gonestrwydd; Arweinyddiaeth. Disgwylir i holl aelodau Bwrdd a Phwyllgor Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol ddangos yr egwyddorion hyn.

**Mae pob penodiad cyhoeddus yn seiliedig ar deilyngdod**

Gwneir y penodiad hwn yn unol â Chod Ymarfer OCPA, sy'n mynnu bod penodiadau yn cael eu gwneud yn ôl teilyngdod gydag asesiad annibynnol a thryloywder proses. Ni fydd gweithgarwch gwleidyddol yn chwarae unrhyw ran yn y broses ddethol.

Gall ymgeiswyr ddod o ystod eang o gefndiroedd a phrofiad. Mae Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol yn croesawu ceisiadau waeth beth fo hil, lliw, tarddiad ethnig neu genedlaethol, rhyw, statws priodasol, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd, credoau crefyddol neu gredoau athronyddol tebyg, oedran, ail-aseiniad rhyw neu gefndir cymunedol yr ymgeisydd.

Mae hygyrchedd i benodiadau cyhoeddus yn ofyniad sylfaenol ac mae'r broses penodiadau cyhoeddus yn hyrwyddo, yn dangos ac yn cynnal cyfle a thriniaeth gyfartal i bob ymgeisydd.

Os ydych chi angen unrhyw un o'r dogfennau ymgeisio mewn fformat arall, cysylltwch â wales.committee@tnlcommunityfund.org.uk

Penodiadau cyhoeddus yw'r swyddi hyn, nid swyddi cyflogaeth, ac maen nhw’n ddarostyngedig i'r egwyddorion penodi perthnasol.